




Adolygiad Blynyddol

Ebrill 2021—Mawrth 2022

Rhif elusen: 1086434

Rhif cwmni: 04033853



Mae TCC yn mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol drwy gynorthwyo cymunedau amrywiol i feithrin y grym sydd ei angen i sicrhau newid. Rydym yn gwneud hyn drwy drefnu cymunedol: dod â grwpiau lleol at ei gilydd a'u cynorthwyo i osod eu hagenda eu hunain, i weithredu ac i wella cymunedau. Ym mis Hydref 2020 buom yn dathlu pen-blwydd TCC yn 25 mlwydd oed, sy'n golygu mai ni yw'r elusen trefnu cymunedol hynaf yng Nghymru. Ein haelodau yw nifer o wahanol grwpiau cymunedol, grwpiau ffydd ac ysgolion o bob rhan o Wrexham, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Yn ein cyfarfodydd misol gall unrhyw un o'n haelodau godi mater i TCC weithio arno, sy'n golygu mai ein haelodau sy'n gosod ein hagenda. Unwaith y cytunir ar fater i weithio arno, byddwn yn ymchwilio'n drylwyr i'r pwnc, gan ddarganfod pwy arall a allai fod yn gysylltiedig â'r mater, a phwy sydd â'r grym i wneud penderfyniad. Yna, rydym yn cynorthwyo'r bobl mae'r mater yn effeithio arnynt i arwain ymgyrch, gan gyfarfod yn uniongyrchol â'r sawl sy'n gwneud penderfyniad er mwyn sicrhau newid.

Rydym yn gweithio yn y maes cyhoeddus, yn aml mewn cyswllt â'r rhai sydd mewn grym, ond nid oes gennym unrhyw ymlyniadau gwleidyddol. Ein prif nod yw meithrin cydberthnasau a grym yn y gymuned, fel bydd pobl â llais ynghylch penderfyniadau a wneir amdanynt. Ers ei sefydlu ym 1995 mae TCC wedi bod yn hynod llwyddiannus wrth wneud hynny, ac yn 2016 enillodd Wobr Elusennau'r Guardian.

Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn amlinellu rhai o'n llwyddiannau o'r flwyddyn a aeth heibio. Mae adroddiad blynyddol llawn sy'n cynnwys cyfrifon a archwiliwyd yn annibynnol ar gael yma.



Hafan Meddyliau Iach

Mae grŵp leuenctid ar Waith TCC wedi bod yn ymgyrchu i wella cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion uwchradd trwy eu hadnodd [Hafan Meddyliau Iach](#), â gwobr ddewisol. Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliodd y grŵp digwyddiad arddangos ar-lein i benaethiaid a thimau arwain ysgolion o bob rhan o'r rhanbarth glywed am Hafan Meddyliau

Iach, a phwysigrwydd cymorth iechyd meddwl ar draws y gymuned ysgol gyfan. Karen Evans, Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar Cyngor Wrecsam, Jack Sargeant, Aelod o'r Senedd dros Alun a Glannau Dyfrdwy a Phennaeth Ysgol Uwchradd Penarlâg oedd rhai o'r siaradwyr gwadd a gefnogodd y digwyddiad. Ymunodd staff o ysgolion a sefydliadau sy'n gweithio ym myd addysg â'r digwyddiad, ac ymunodd 4 ysgol â Hafan Meddyliau Iach.

Gweithredu lleol ar yr Argyfwng



Ymgysylltodd arweinwyr TCC â chynghorwyr a mynd i strydoedd Wrecsam i alw ar Gronfa Bensiwn Clwyd i ddiosg. [Ymddangosodd hyn yn y wasg](#), ac yna roedd cyfarfod â'r Gronfa ym mis Awst. Ar ôl cyfarfod â ni, gwnaethant gytuno i'n cais i ymgynghori ag aelodau'r gronfa bensiwn ar eu strategaeth fuddsoddi ac ymrwymo i symud eu targedau diosg ymlaen gan bum mlynedd. Mae angen llawer mwy ar gyfer newid ystyrlon sylweddol, fodd bynnag mae hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir. Gwnaethom barhau i roi pwysau trwy

gysylltu â chynrychiolwyr etholedig a chefnogi clymblaid diosg Cymru, y mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ei chydlyn. Yn ogystal â'r mater tymor hwy hwn, mae arweinwyr TCC o'r Rhyl, Dinbych, Llangollen, Wrecsam, Treffynnon, a mannau eraill yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yn parhau i weithredu'n lleol. Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, cynhaliodd arweinwyr TCC y Streic Hinsawdd Menywod gyntaf erioed yng Nghymru, gan "gynnau" sgysiau a thynnu straeon allan am sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom.

Prosiect Partneriaeth Sefydliad Bevan

[yr Afon](#) a Sefydliad Bevan ar [brosiect mudo](#) blwyddyn o hyd yn archwilio sut y gall pobl sydd â phrofiad byw o fudo gymryd mwy o ran mewn datblygu polisi, dylanwadu a gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Galluogodd y bartneriaeth hon i ni feithrin perthnasau â grwpiau y tu allan i'n haelodaeth. Gyda chefnogaeth Sefydliad Bevan, mae cyfranogwyr wedi rhannu eu sgiliau a'u profiadau i ddylanwadu ar bolisi yng Nghymru trwy ymgysylltu ag Ymchwiliadau'r Senedd, Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, a phrosiectau ymchwil mewn nifer o feysydd, gan gynnwys dyled, tai ac ESOL. Roedd cyfranogwyr yn arbennig o falch o weld eu heffaith ar [argymhellion o adroddiad Pwylgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd](#) yn dilyn yr Ymchwiliad Gofal Plant a Chyflogaeth Rhieni. Cafodd cyfranogwyr fynediad at hyfforddiant ar y Senedd, effaith rithwir, cyfweiliadau'r cyfryngau, llunio polisi yng Nghymru a chyflwyniad i drefnu cymunedol.

Gweithiodd TCC mewn partneriaeth â [CLPW CIC](#), [Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan](#)

Ei haelodau Ar hyn o bryd, mae gennym 35 o grwpiau sy'n aelodau ac rydym bob amser yn chwilio am grwpiau newydd i ymuno â ni. Mae pob grŵp yn talu tanysgrifiad aelodaeth blyneddol, ar sail eu maint a'u hincwm. Fodd bynnag, fel y gwelwch, daw'r rhan fwyaf o'n cyllid o grantiau. Mae bod yn rhan o TCC yn golygu y gall grwpiau godi materion i'r TCC weithio arnynt, rhannu cefnogaeth a chryfder aelodau eraill, a chael mynediad at hyfforddiant TCC yn rhad ac am ddim.

Toiledau Changing Places

Cododd arweinwyr TCC, o sawl grŵp cymunedol yn Sir y Fflint, y prinder Toiledau Changing Places fel mater i TCC weithio arno. Toiledau wedi'u haddasu'n arbennig yw Changing Places, sydd â theclynnau codi a gwelyau newid maint oedolion fel nodweddion safonol. Dim ond tua 50 o'r rhain sydd yng Nghymru gyfan, a dim ond 9 yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae arweinwyr o Outside Lives, Canolfan Byw'n Annibynnol FDF, Do-It Sir y Fflint, Ysgol Sant Christopher, ac eraill wedi dod at ei gilydd i weithredu ar hyn. Ymatebodd y grŵp materion i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar doiledau cyhoeddus a chyfleusterau newid ym mis Mai 2021. Ers hynny, mae'r grŵp wedi gweithio â'r Eglwys Farmor ym Modelwyddan i wella hygyrchedd eu toiledau, ac wedi gweithio â Pharc Manwerthu Brychdyn i gael eu hymrwymiad i gael Toiledau Lleoedd Newid yn y parc. Ers hynny, mae arweinwyr TCC wedi ffilmio fideo ymgyrchu, a fydd yn cael ei lansio i gyd-fynd â Diwrnod Ymwybyddiaeth Newid Lleoedd ar 19eg Gorffennaf. Mae'r ymgyrch hon yn parhau, ac rydym yn gwahodd pob aelod a chynghreiriaid i gefnogi â champau gweithredu sydd ar y gweill.



Diwrnod Cynllunio Blynyddol


Cynhaliwyd ein hail Ddiwrnod Cynllunio ar-lein ym mis Chwefror 2022. Rhannwyd y diwrnod yn sesiwn bore a phrynhawn â gwahanol arweinwyr grŵp yn mynychu drwy gydol y dydd. Myfyriodd arweinwyr, staff ac ymddiriedolwyr ar heriau a llwyddiannau 2021 a nodi camau gweithredu i ddatblygu gwaith TCC yn 2022. Mae cael perthnasau cryf yn allweddol i gael cynghrair ffyniannus sy'n gallu cymryd camau effeithiol â'i gilydd, a chytunodd pawb mai'r flaenoriaeth ar gyfer eleni ("ar ôl Covid") oedd cryfhau'r perthnasau hynny, yn bersonol ac yn gymysg pan fo'n bosibl. O ystyried y ddwy flynedd gythryblus a thrawsnewidiol rydym i gyd wedi'u profi, ac o ystyried ein haelodaeth amrywiol sy'n esblygu, rydym wedi ymrwymo i ail-werthuso ein gwerthoedd a'n cenhadaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, wrth i ni adeiladu "maniffesto" cymunedol sy'n adlewyrchu pwy ydym ni yn awr. Edrychwn ymlaen at drefnu ac adeiladu grym cymunedol â'n grwpiau aelodau dros y flwyddyn i ddod.




Arweinyddiaeth a chyllid TCC

Covid. Fel y rhan fwyaf o sefydliadau yn y trydydd sector, gwelodd TCC newidiadau staffio yn 2021. Ym mis Awst, gadawodd Hugo Panayiotou i weithio i Remploy. Symudodd y prif drefnydd blaenorol, Kay Polley a Sam Rex-Edwards, i rôl rhannu swydd yn y Labordy Cyllid Arloesol ym mis Medi. Ymunodd trefnydd cymunedol newydd, Amy Jones, ddiwedd mis Tachwedd. Ym mis Rhagfyr, gadawodd y trefnydd ieuencid Chloe Gallagher i weithio â'r Comisiynydd Plant. Drwy gydol mis Medi – Rhagfyr 2021, camodd Mike Harrison i mewn fel prif drefnydd dros dro i gefnogi ymddiriedolwyr a staff i archwilio'r camau nesaf. Penderfynwyd peidio â phenodi prif drefnydd newydd a chanolbwyntio ar gydweithio. Cytunwyd nad oedd "strwythur gwastad" llwyr yn hyfyw, ond cytunwyd ar fodel arweinyddiaeth wasgaredig. Mae'r ailstrwythuro hwn yn ddull strategol o sicrhau cydnerthedd sefydliadol. Yn ogystal ag ailstrwythuro mewnol, gweithiodd y staff yn galed i sicrhau cyllid newydd i gefnogi costau craidd a recriwtio ar gyfer staff ychwanegol.

Roedd 2021–22 yn flwyddyn heriol, wrth i ni weld newidiadau sylweddol a pharhaus yn gysylltiedig â



Cyfanswm: £178,468



Cyfanswm: £193,059

Ein staff Mae tîm staff TCC yn cynnwys dau drefnydd cymunedol, trefnydd ieuencid rhan-amser, ac arweinydd gweithrediadau. Mae'r tîm yn cydweithio â strwythur arweinyddiaeth wasgaredig. Sue Williams yw'r Arweinydd ar gyfer Llwyddiant Gweithredol, ac mae Kelly Huxley-Roberts yn drefnydd cymunedol llawn amser, sy'n arwain gwaith TCC sy'n cynnwys Pobl, Ymgyrchoedd a Dysgu. Mae Amy Jones yn drefnydd cymunedol, ac mae Lucy Allin yn gweithio'n rhan-amser fel trefnydd ieuencid TCC. Arweiniodd Lucy hefyd at waith mudo TCC.

Ein hymddiriedolwyr Mae ein bwrdd ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Y bwrdd eleni oedd: Y Parch Anna Jane Evans (cadeirydd), Mrs Sylvia Partington (trysorydd), Mr Bill Long, Ms Alison Tudor Williams, yr Hybarch Chris Potter, â'r Arglwydd Esgob Gregory Cameron yn gwasanaethu fel noddwr TCC. Anogir pob grŵp i enwebu aelodau i fod yn ymddiriedolwyr.

Eind cyllidwyr Rydym yn ddiolchgar iawn i'r arianwyr a restrwyd uchod yn ogystal ag Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, pob un yn darparu grantiau i gefnogi'r gwaith o redeg TCC o ddydd i ddydd. Caiff cyfrifon llawn, wedi'u harchwilio'n annibynnol, eu cynnwys yn adroddiad blyneddol TCC.